

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 17 Medi 2025

Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor Swyddfeydd Dinesig Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4BW / O bell trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 24 Medi 2025 am 16:00.**

AGENDA

- 1 Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
- 2 Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
- 3 Cymeradwyaeth Cofnodion
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 23/07/2025 7 - 20
- 4 Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau (De Cymru)
21 - 22
- 5 I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
(i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
(ii) Prif Weithredwr

6	<u>Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd</u>	
7	<u>Archwiliad Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Plant a Theuluoedd Mehefin 2025</u>	23 - 54
8	<u>Adroddiad Blynnyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2024-25</u>	55 - 132
9	<u>Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygu Manwerthu a Masnachol Canllawiau Cynllunio</u>	133 - 182
10	<u>Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi</u>	183 - 200

11 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Cwestiwn gan y Cyngorydd Ian Williams i'r Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Pa bwysau mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei osod ar SRS, CNC a LIC i olrhain ffynhonnell y llygredd sy'n effeithio ar ein traethau a'n hafonydd (Afon Ogwr, Afon Newton, Bae Sandy, Treco a Bae Gorffwys)? Mae ein trigolion bellach yn dioddef yr halogiad hwn yn rheolaidd ac mae'n achosi problemau meddygol amrywiol ac mae hyn yn hollol annerbyniol! Mae hefyd yn cael effaith negyddol ar economi ein sir gyda thrigolion yn chwilio am foroedd a thraethau glanach i ffwrdd oddi wrth draethau Porthcawl.

Cwestiwn gan y Cyngorydd Ian Spiller i'r Aelod Cabinet Adfywio

Nid oedd y postyn yng nghanol y dref ar Stryd y Frenhines yn gweithio o ddydd Iau 26 Mehefin tan ddydd Mawrth 29 Gorffennaf 2025, sy'n golygu er gwaethaf y gorchymyn traffig fod ceir wedi gallu cyrraedd canol y dref yn ystod y cyfnod hwn.

Fedrwch chi gadarnhau, os gwelwch yn dda, faint o ddigwyddiadau traffig yr adroddwyd amdanynt rhwng 10a.m. a 6p.m yn ystod y cyfnod hwn a natur y digwyddiadau hynny?

12 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cyngorydd Tim Thomas

Cynnig i'r Cyngor Llawn – Diwygiadau Cynllunio i godi'r gwastad o ran anghenion cymunedau gyda datblygwyr mawr.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried cynigion ar gyfer diwygiadau cynllunio yng Nghymru.
- Pwysigrwyd y system gynllunio wrth ddarparu datblygu cynaliadwy, tai fforddiadwy, a seilwaith cymunedol.
- Bod cytundebau Adran 106, caniatâd cynllunio, ac ansawdd a safonau adeiladau newydd yn ganolog i gynnal hyder y cyhoedd yn y system gynllunio.
- Bod cyflawni gwael yn erbyn rhwymedigaethau y cytunwyd arnynt, neu safonau gwael yn ansawdd cartrefi newydd, yn tanseilio ymddiriedaeth ac yn niweidio cymunedau.

Mae'r Cyngor hwn yn credu:

- Bod cyflawni cytundebau Adran 106 yn gadarn, caniatâd cynllunio, a safonau cyson uchel mewn datblygiadau tai newydd yn hanfodol.
- A lle mae cyflawniad rhwymedigaethau cynllunio wedi bod yn wael, neu lle mae ansawdd a safonau adeiladau newydd wedi bod yn annigonol, dylid trin hyn fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol gan yr un datblygwr neu bartion cysylltiedig.
- Y dylai tramgwyddwyr difrifol a mynych sy'n parhau i fethu â bodloni rhwymedigaethau neu safonau ansawdd dro ar ôl tro gael eu rhoi ar gofrestr o berfformwyr gwael a'u gwahardd rhag cyflwyno cynigion datblygu pellach am gyfnod penodol.
- Rhaid i'r diwygiad cynllunio hwnnw yng Nghymru gryfhau atebolrwydd a gorfodaeth er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn cyflawni ar eu hymrwymadau ac o ran ansawdd.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

1. Galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, ac at Brif Weinidog Cymru, gan groesawu gwaith Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r maes cynllunio ac annog bod yn rhaid i hyn gynnwys:
 - o Monitro a gorfodaeth gryfach ar gytundebau Adran 106 a chaniatadau cynllunio.
 - o Gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol ystyried record datblygwyr wrth gyflawni rhwymedigaethau blaenorol ac ansawdd y datblygiadau a gwblhawyd ganddynt fel ystyriaethau cynllunio perthnasol.
 - o Mwy o bwerau i gynghorau wrthod ceisiadau cynllunio lle mae datblygwyr wedi methu ag anrhydeddu ymrwymadau neu lle mae safon adeiladau newydd blaenorol wedi bod yn wael.
 - o Creu cofrestr genedlaethol o ddatblygwyr sy'n perfformio'n wael, gyda phwerau i wahardd tramgwyddwyr difrifol a mynych rhag ymgymryd â datblygiadau newydd am nifer o flynyddoedd.
2. Dosbarthu'r cynnig hwn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac i bob Aelod Lleol o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan annog iddynt ei gefnogi.

13 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Jane Gebbie

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

1. Mae gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gallu ymuno â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, sydd, fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PBCC), yn rheoli dros £3 biliwn ar ran gweithwyr llywodraeth leol a phobl sydd wedi ymddeol.
2. Mae buddsoddiadau presennol yn cynnwys daliadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil, gweithgynhyrchwyr arfau, a chorfforaethau rhyngwladol sydd wedi eu cyhuddo o gyfrannu at dorri hawliau dynol neu ddirywiad amgylcheddol.
3. Mae gan gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ddyletswydd ffyddlon i weithredu er budd hirdymor gorau yr aelodau, sy'n cynnwys rheoli risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG).

4. Mae nifer o gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys cynghorau dinesig a sirol ledled y DU, wedi mabwysiadu polisiâu Buddsoddi Cyfrifol gydag ymrwymïadau cryfach i dynnu allan o sectorau niweidiol a chyd-fynd â nodau hawliau dynol a hinsawdd rhyngwladol.

5. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi mabwysiadu polisi Buddsoddi Cyfrifol ond ar hyn o bryd yn caniatáu disgresiwn sylweddol i reolwyr cronfeydd dros feini prawf moesegol ac eithriadau sector.

14 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Rhys Goode

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y pwysau cynyddol a osodir ar Heddlu De Cymru o ganlyniad i gynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol mawr yng Nghaerdydd ac yn y rhanbarth ehangach.

Yn aml, mae digwyddiadau fel gemau chwaraeon mawr, cyngherddau, uwchgynadleddau gwleidyddol a chynullïadau diwylliannol yn gofyn am bresenoldeb heddlu ychwanegol sylweddol, cynllunio ac adnoddau, gyda chostau a phwysau gweithredu yn cael eu dwyn yn lleol.

Nodwn ymhellach fod dinas-ranbarthau eraill y DU, yn enwedig Belfast a Chaeredin, yn cael eu cydnabod gan y Swyddfa Gartref fel rhanbarthau Prifddinas ac yn derbyn cyllid a chefnogaeth ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i adlewyrchu'r gofynion plismona unigryw sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau proffil uchel.

Ar hyn o bryd, nid yw Heddlu De Cymru yn derbyn lefelau cyfatebol o gefnogaeth, er gwaethaf wynebu heriau a gofynion adnoddau cymharol, megis bod yr ail ardal uchaf ar gyfer ymweliadau Brenhinol, rhaglenni Rygbi a Chriced Rhyngwladol a lleoliadau cyngherddau mawr. (i'w gadarnhau)

Felly, mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Galw'n ffurfiol ar Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU i gydnabod Caerdydd fel Dinas-ranbarth yn yr un modd â Belfast a Chaeredin ar gyfer cyllid yn y dyfodol.

2. Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref ac at Aelodau Seneddol perthnasol o Gymru ac Aelodau Senedd Cymru, yn eu hannog i gefnogi'r achos dros gydnabod Caerdydd fel dinas-ranbarth a galw am gyllid teg a chynaliadwy i Heddlu De Cymru.

3. Gofyn am adolygiad o fformwlâu cyllido presennol y Swyddfa Gartref, er mwyn sicrhau cefnogaeth deg a chyson i holl heddluoedd Cymru, yn seiliedig ar lwyth digwyddiadau, statws dinas- ranbarth, a phwysau plismona.

4. Gwahodd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i roi cyflwyniad i'r Cyngor ar effeithiau gweithredu ac ariannu plismona digwyddiadau mawr ac i drafod ymdrechion eiriolaeth ar y cyd posibl.

Credwn fod dull teg a chyfartal o ddyrannu adnoddau plismona yn hanfodol i gynnal diogelwch cymunedol, lles swyddogion, a hyder y cyhoedd, ac i sicrhau nad yw De Cymru dan anfantais o'i gymharu â dinas-ranbarthau eraill y DU.

15 Materion Brys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

Pob Aelod

Ffon/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov

Negeseuon SMS/SMS Messaging: 07581 157014 [Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov

Cyfnewid testun: Rhwch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Test relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croseawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhwch wybod I ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.